# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 26/11/2020

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dewi Roberts (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Anwen J Davies, R. Medwyn Hughes, Berwyn Parry Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Olaf Cai Larsen, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Angela Russell

**Aelod Ex-officio**: Y Cynghorydd Edgar W Owen

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Einir Rh Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Mari W Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc) a Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi W Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2020/21.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2020/21.

## 3 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Linda A Jones a Linda Morgan

## 4. DATGAN BUDDIANT

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiant personol fel a ganlyn :

Cyng. R Medwyn Hughes – Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Eryl Jones-Williams – Perthynas yn defnyddio cadair olwyn
Cyng. Rheinallt Puw – Cyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Dewi W Roberts – Aelod o'r Gweithgor

Cyng. Angela Russell – Aelod o'r Gweithgor

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2020 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD AR ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU : CEFNOGI POBL ANABL GWYNEDD (GWASANAETH CADEIRIAU OLWYN)

Diolchwyd am yr adroddiad cynnydd, yn dilyn cyflwyno y mater i'r Pwyllgor Craffu yn Medi 2019. Gofynnwyd am sylwadau ar y gweithredoedd yn sgil yr argymhellion, a nodwyd fel a ganlyn :

Cadarnhawyd bod yr Aelod Cabinet wedi ysgrifennu at Vaughan Gething yn 2019 yn tynnu sylw at yr adroddiad, ond nododd nad oedd ymateb wedi dod i law, ond teimlwyd mai materion ar gyfer gweithrediad lleol oedd yn codi o'r argymhellion. Nododd bod y gwaith wedi amlygu y cydweithio rhwng y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd a theimlwyd fod nifer o argymhellion yr Adroddiad ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Yn sgil hyn, nodwyd pwysigrwydd cadw y cyfathrebu yn fyw gyda'r Gwasanaeth Iechyd. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod ymateb gan y Gwasanaeth Iechyd i'r argymhelliad yn yr adroddiad.

Adroddwyd ar faterion penodol i'r Gwasanaeth Iechyd isod, gan ddangos symudiad yn y materion, ond wrth gwrs mae cynnydd wedi arafu oherwydd COVID.

Cadarnhawyd nad yw'r Gweithgor Partneriaeth Ranbarthol wedi ei sefydlu eto, ond fod trefniadau lleol wedi eu sefydlu rhwng y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd a Chyngor Gwynedd i wella cydweithio.

Mae penodiad Arweinydd Therapi Galwedigaethol ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi hwyluso cyfathrebu a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd.

Mae dogfennau cyfeirio electroneg yn cael eu treialu gan y Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd, ac mae bwriad cyflwyno trefn gyfeirio electroneg yn fuan.

Mae hyfforddiant ar y cyd yn digwydd rhwng y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd a Thimau Adnodd Cymunedol Gwynedd.

Nodwyd pryder bod arafwch o ran asesiad amgylchedd y cartref ynghyd a phryder bod y therapyddion galwedigaethol heb hyfforddiant a chwestiynwyd tybed a oedd hyn wedi ei ddatrys? Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb therapyddion galwedigaethol y Cyngor ydy cynnal asesiad amgylchedd yn y cartref, a bod cyfrifoldeb ar therapydd galwedigaethol y

Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd i gwblhau asesiadau ar gyfer offer arbenigol. Nid oes datblygiadau pellach ynghylch cytundeb gan y Gwasanaeth Iechyd i Therapyddion Galwedigaethol o Awdurdodau Lleol dderbyn yr hyfforddiant arbenigol. Serch hyn, mae cynnydd wedi bod yn yr ymweliadau ar y cyd rhwng therapyddion yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd sydd yn gwella cydweithio ac yn lleihau oedi mewn sicrhau offer addas yn amserol. Cadarnhawyd y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Cadarnhawyd bod aelodau y gweithgor wedi siarad gyda rhai cleifion am yr effaith/diffygion a chafwyd cadarnhad bod y Gweithgor wedi gallu gwella y gwasanaeth a bod y Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen, a bod llawer wedi newid, er gwell, tra roedd yr ymchwiliad ar y gweill.

Nodwyd balchder wrth ddarllen yr argymhellion ond nodwyd y gwahaniaeth sylweddol rhwng Gogledd a De Cymru. Nodwyd ei bod yn bwysig peidio ag anghofio yr argymhellion, dal i dderbyn diweddariadau a dal i wella er mwyn symud ymlaen. Cadarnhawyd bod yr asesiadau yn well yn y De a bod lle i wella y Gwasanaeth yn y Gogledd a bo hwn angen sylw y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd.

Cwestiynwyd y cyfarpar oedd yn cael ei roi allan i'r cleifion a nodwyd nad oedd wastad yn addas a chwestiynwyd tybed a yw y broblem honno wedi ei datrys? Nododd ei bod yn bwysig ar gyfer lles unigolion a chadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, o ran yr unigolion sydd y dod drwy Wasanaeth Cymdeithasol y Cyngor, nad oedd wedi derbyn pryderon ynglŷn ag addasrwydd offer sydd wedi ei ddarparu. Rhannwyd yr enghraifft o rai unigolion angen cadair arbennig, a heb y gadair arbennig eu bod yn dirywio a phroblemau gyda storfa y gwasanaeth iechyd.

Atgyfnerthwyd neges gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant oedd yn cydymdeimlo gyda y neges, a nododd y byddai yn hoffi rhoi y sicrwydd i'r Cynghorydd, ond cwestiwn i'r Gwasanaeth Iechyd ydoedd a tybed y gellid ysgrifennu at Iechyd? Cytunwyd bod y berthynas gyda y Gwasanaeth Iechyd wedi gwella yn arw, bod llawer o symud a bod syniadau i'r dyfodol a chadarnhawyd y byddai sylwadau y Cynghorydd yn cael sylw.

Diolchwyd i'r Gweithgor a'r swyddogion am lynu at bolisi Cyngor Gwynedd o roi pobl yn gyntaf.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol gan nodi y sylwadau. Gofynnwyd am sicrwydd bod y Gwasanaeth yn cadw golwg ar yr hyn sydd yn mynd ymlaen.**

## 8. PLANT A PHOBL IFANC MEWN GOFAL

Nodwyd bod yr adroddiad yn cael ei chyflwyno gyda balchder yn y staff a'r rhieni maeth. Adroddwyd ar sut roedd y Gwasanaeth wedi ymateb i barhau gyda y Gwasanaeth yn y cyfnod anodd hwn ac wedi ymateb i'r gofyn yn ystod y cyfnod clo.

Cadarnhawyd bod 294 o blant mewn gofal ar ddiwedd Medi 2020, ac mewn gofal am resymau amrywiol. Nodwyd mai y dewis olaf un yw gosod

plentyn mewn gofal, ond weithiau nid oes dewis.

Cyfeiriwyd at y ffigyrau o 27 plentyn mewn gofal am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod Ebrill i Fedi - hynny yw, nad oeddynt yn wybyddus i'r Cyngor cyn y cyfnod hwn, tra bo derbyn cyfeiriadau dienw wedi cynyddu i 71%. Ar y llaw arall, cadarnhawyd bod 24 wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hefyd. Cadarnhawyd o ran y plant sydd yn destun Gorchymyn Llys bod cydweithio wedi bod gyda rhieni.

Cyfeiriwyd at yr atodiad sydd yn manylu o ran niferoedd a lleoliadau, gan nodi bod rhai plant adref gyda theulu neu aelodau estynedig y teulu.

O ran yr adnoddau maethu, nodwyd bod 72 o leoliadau wedi eu cofrestru a oedd gyda'r capasiti i gynnig lleoliadau i 139 o blant, ynghyd a 60 lleoliad maeth arall drwy deulu estynedig. Cadarnhawyd bod llefydd ychwanegol wedi eu cofrestru yn ystod y cyfnod, a bod y ffordd o gynnal cyfarfodydd wedi newid a bod ymgyrch recriwtio wedi cymryd lle.

Cadarnhawyd ei bod yn anodd cael lleoliadau i ganran fach, sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor, ac mai yr opsiwn olaf un yw eu gosod mewn lleoliadau anrheoledig. Cadarnhawyd, yn y 5 mlynedd diwethaf, bod 7 trefniant o'r math wedi cymryd lle am gyfnod o 3 wythnos ar yr hiraf.

Cyfeiriwyd at bolisi Llywodraeth Cymru i leihau nifer y plant mewn gofal. Atgoffwyd y Pwyllgor bod y cyfeiriad polisi yn cael y flaenoriaeth uchaf rhai blynyddoedd yn ôl a hysbyswyd y Llywodraeth bryd hynny na fyddai Gwynedd yn gosod targed, ac osgoi targedau a fu : nid oedd hwn yn safbwynt hawdd.

Nodwyd y daeth Covid a heriau newydd a bod y gweithlu wedi bod yn anhygoel wrth newid yn sydyn, ac wedi ymdrin â materion megis:

Parhau i wneud Asesiadau
Parhau i gadw cyswllt gyda rhieni
Cau Hafan y Sêr
Cydweithio gyda yr Adran Addysg
Adolygiadau Rhithiol ar gyfer Plant mewn Gofal
Sefydlu Llinell Gymorth
Cymorth i gael mynediad at ddeunydd megis ffisig a bwyd i fabanod

Yn ddiweddarach ymdriniwyd â materion megis
Ail agor Hafan y Sêr
Ail gychwyn trefniadau cyswllt plant a rhieni (mewn PPE wrth gwrs)
Parhau i weithio o adref

Nodwyd pryder am staff a nodwyd bod y Gwasanaeth yn gweithredu eu cyfrifoldebau yn llawn, ond mewn ffordd wahanol.

O ran y staff nodwyd bod
Trefniadau Iechyd a Diogelwch yn dynn
Rheolwyr yn cysylltu yn gyson
Y tîm rheoli a rheolwyr wedi cael tri sesiwn, gan roi cyfle i adrodd ar heriau a phryderon

Diolchwyd am yr adroddiad helaeth a chwestiynwyd fel a ganlyn :

O ran y pwynt 'Ar adegau mae'r gallu i ganfod lleoliad preswyl addas yn amhosibl' cwestiynwyd onid yw hyn yn risg mawr i'r staff? Cwestiynwyd hefyd sut fyddai modd lleihau y risg i'r staff?
Nodwyd bod rhai unigolion angen ateb eu hanghenion arbennig. Yn anffodus mae darparwyr preifat yn gallu nid yn unig enwi eu pris ond hefyd nid yw lleoliadau wastad ar gael. Cadarnhawyd fod y datrysiad yn un anodd iawn. Nodwyd pan fo y sefyllfa yn codi nad oedd byth brinder staff sydd yn fodlon gwirfoddoli i wneud y gwaith.
Cwestiynwyd, os yw hon yn broblem genedlaethol oni ddylid herio y Llywodraeth, gan dderbyn na fyddai yn hawdd? Tybed a oes ffrwd gwaith yma i edrych ar y mater a symud ymlaen arno yn genedlaethol er mai hen broblem yw y mater? Roedd y Pwyllgor yn falch bod y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn Cadeirio y Grŵp trafod ar hyn.

Nodwyd pryder am y datganiad ynglŷn â rhewi cyflogau yn enwedig gan fo staff yn gwneud eu gorau. Nodwyd onid yw ffigyrau gofal uchel yn dangos fod y Gwasanaeth yn gofalu am blant a nodwyd balchder bod y plant mewn dwylo da.

O ran targed y Llywodraeth o ran lleihau plant mewn gofal, cefnogwyd safiad Gwynedd o beidio â gosod canran %, gan gadarnhau na fyddai mwy mewn gofal na fyddai wirioneddol angen bod. Ychwanegwyd at hyn gan nodi na dim gosod targed yw yr ateb ond gwella, a chadarnhawyd bod angen dangos yn glir a rheolaidd y gwelliannau a'r rhwystrau sydd wedi eu goresgyn.

Cwestiynwyd y ffaith bod mwy o blant wedi dod i ofal rŵan drwy alwadau ffôn gan unigolion a chwestiynwyd pam bo hyn? Mewn ymateb, nodwyd efallai mai pryder ydoedd gan unigolion, pobl yn gweithio o adref ac yn gweld neu glywed mwy neu fwy o lygaid yn ein cymunedau. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn parhau i weld y cyfeiriadau dienw.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am y gwaith, a cyfeiriodd at yr heriau, gan gynnwys:
targed y llywodraeth a'r ffaith bod Gwynedd wedi dod dan bwysau ond yn parhau i ymwrthod i osod targed.
Archwiliad Arolygaeth Gofal ar y gweill, sydd wedi dod ar amser anodd
Materion llesiant staff
Heriau ariannol, ble mae pob carreg yn cael ei throi i weld a oes modd gwneud arbediad er mai diogelwch yw y prif beth
Efallai y byddai yn ddiddorol a defnyddiol cyflwyno astudiaeth achos unigolyn yn y drefn i'r Pwyllgor yn y dyfodol

Diolchwyd i'r Pennaeth a'r Adran am y ffordd roeddynt wedi ymateb i'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y sylwadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11.45

**CADEIRYDD**